OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1367 (Cy. 135)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015



| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Mehefin 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *12 Mehefin 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2016* |



Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 14(1) a (2) a 198(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016 ac yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "adroddiad asesiad poblogaeth" ("*population assessment report*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 5;

ystyr "asesiad poblogaeth" ("*population assessment*") yw'r asesiad y mae'n ofynnol ei gynnal o dan adran 14(1) o'r Ddeddf;

ystyr "y cyrff cyfrifol" ("*the responsible bodies*") yw'r cyrff sy'n gyfrifol am gynnal asesiad poblogaeth;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr "gwasanaethau ataliol" ("*preventative services*") yw gwasanaethau y mae'r awdurdod lleol o'r farn y byddent yn sicrhau unrhyw un neu ragor o'r dibenion yn adran 15(2) o'r Ddeddf.

### Sicrhau canlyniadau llesiant

**2.** Wrth gynnal asesiad poblogaeth, rhaid i'r cyrff cyfrifol roi sylw i'r canlyniadau a'r mesurau a bennir yn y datganiad a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 8 o'r Ddeddf (dyletswydd i ddyroddi datganiad ynghylch y canlyniadau sydd i'w sicrhau).

(**1**) 2014 dccc 4.

**Ymgysylltu â dinasyddion**

**3.**—(1) Wrth gynnal asesiad poblogaeth, rhaid i'r cyrff cyfrifol gymryd camu rhesymol i ymgysylltu â'r canlynol—

(a) pobl yn ardal yr awdurdod lleol y mae arnynt neu y gall fod arnynt anghenion am ofal a chymorth(**2**),

(b) pobl yn ardal yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blant y mae arnynt neu y gall fod arnynt anghenion am ofal a chymorth, ac

(c) gofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol y mae arnynt neu y gall fod arnynt anghenion am gymorth.

(2) Rhaid i'r cyrff cyfrifol sefydlu gweithdrefn ar gyfer yr ymgysylltu sy'n ofynnol gan baragraff (1).

**Ymgysylltu â'r sector preifat a'r trydydd sector**

**4.**—(1) Wrth gynnal asesiad poblogaeth, rhaid i'r cyrff cyfrifol ymgysylltu ag unrhyw sefydliad sector preifat neu unrhyw sefydliad trydydd sector sy'n ymwneud â, neu sy'n ymddiddori mewn, darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol(**3**) i'r boblogaeth leol.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "sefydliad trydydd sector" yw sefydliad y gallai person farnu'n rhesymol ei fod yn sefydliad sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i'r gymdeithas.

**Adroddiad asesiad poblogaeth**

**5.**—(1) Rhaid i'r cyrff cyfrifol lunio ar y cyd adroddiad ar ganlyniad yr asesiad poblogaeth sydd wedi ei gynnal ganddynt.

**Cyhoeddi adroddiad asesiad poblogaeth**

**6.**—(1) Rhaid llunio'r adroddiad asesiad poblogaeth cyntaf erbyn 1 Ebrill 2017.

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol gyhoeddi ar ei wefan yr adroddiad asesiad poblogaeth a luniwyd ar gyfer ei ardal.

(3) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd lleol gyhoeddi ar ei wefan yr adroddiadau asesiad poblogaeth a luniwyd ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau lleol sydd o fewn ei ardal.

(4) Rhaid i bob awdurdod lleol gyflwyno i Weinidogion Cymru gopi o'r adroddiad asesiad poblogaeth a luniwyd ar gyfer ei ardal.

**Adolygu adroddiadau asesiad poblogaeth**

**7.** Rhaid i'r cyrff cyfrifol gydadolygu'n gyson yr adroddiad asesiad poblogaeth a chaniateir iddynt ddyroddi adendwm i'r adroddiad pryd bynnag y byddant o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.

(**2**) Gweler adran 4 o'r Ddeddf i gael ystyr "gofal a chymorth"
(**3**) Ystyr "gwasanaethau ataliol" yw gwasanaethau a ddarperir at unrhyw un neu ragor o'r dibenion a ddisgrifir yn adran 15(2) o'r Ddeddf.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

5 Mehefin 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 14(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau fel "cyrff cyfrifol") i asesu ar y cyd y materion a bennir yn adran 14(1)(a) i (f) o'r Ddeddf. Mae'r materion hyn yn cynnwys i ba raddau y mae pobl yn ardal yr awdurdod lleol y mae arnynt angen gofal a chymorth ac i ba raddau y mae gofalwyr yn yr ardal y mae arnynt angen cymorth. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal yr asesiadau hyn (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau fel "asesiadau poblogaeth").

Mae rheoliad 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyfrifol roi sylw i'r datganiad o ganlyniadau llesiant (a ddyroddir o dan adran 8 o'r Ddeddf) wrth gynnal asesiadau poblogaeth.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y personau a'r cyrff y mae'n rhaid i'r cyrff cyfrifol ymgysylltu â hwy wrth gynnal asesiadau poblogaeth.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyfrifol lunio ar y cyd adroddiad ar ganlyniad yr asesiad poblogaeth (adroddiad y cyfeirir ato yn y Rheoliadau fel "adroddiad asesiad poblogaeth").

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer cyhoeddi adroddiadau asesiad poblogaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i adroddiadau asesiad poblogaeth gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer adolygu adroddiadau asesiad poblogaeth.